

Dyddiad **27 Chwefror 2002**

Lleoliad **Neuadd y Dref, Y Rhyl**

Teitl **Fframwaith Strategol Ymchwil a Datblygu Iechyd a Gofal
Cymdeithasol i Gymru**

Fframwaith Strategol Ymchwil a Datblygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Gymru

Dogfen Ymgynghorol Ddrafft

Ionawr 2002

Cynnwys

Rhif y Dudalen

Rhagair

Crynodeb gweithredol

3

1. Cyflwyniad

7

Cefndir a chyd-destun y fframwaith strategol

2. Cyd-destun y Cynulliad Cenedlaethol

9

3. Rheoli Ymchwil yng Nghymru

10

4. Cryfderau i adeiladu arnynt

12

5. Meysydd i fynd i'r afael â hwy

13

6. Ehangder y Fframwaith Strategol

13

7. Cynnwys budd-ddeiliaid mewn Ymchwil a Datblygu

14

8. Buddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu yng Nghymru

15

Y Rhaglen Ymchwil a Datblygu i Gymru

9. Datblygu a Gwerthuso Polisi

21

10. Cyd-destun – Rhaglen Defnyddio a Darparu Gwasanaeth

22

11. Cyd-destun – Rhaglen Ymchwil i Asesu ac Ymyrryd

24

12. Gallu – Rhaglen Datblygu Gallu Ymchwil

25

13. Cyfathrebu – Rhaglen Ddosbarthu/Ymwybyddiaeth

26

Casgliadau a'r Camau Nesaf

29

Atodiad Un – Cyfeirnodau

Atodiad Dau – Aelodau'r Grŵp Ymgynghorol

RHAGAIR

Dylid ystyried ymchwil a datblygu fel meysydd canolog i ddatblygiad gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi cyfle i sicrhau bod ehangder yr ymchwil a'r datblygu yng Nghymru yn mynd i'r afael yn effeithiol ag angen y boblogaeth yng Nghymru a hefyd yn cyfrannu at ddatblygiad gwybodaeth mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae rhai cryfderau pwysig i adeiladu arnynt ac mae yna fylchau sydd angen mynd i'r afael â hwy.

Mae'r fframwaith strategol hwn yn nodi tri maes i fynd i'r afael â hwy. Yr angen am gyfeiriad clir i Y a D; adnoddau i'w targedu at feysydd allweddol sy'n flaenoriaeth; a datblygu gweithlu medrus i ddarparu Y a D o ansawdd uchel. Mae'r fframwaith strategol hwn yn dangos y weledigaeth o'r modd y gellir datblygu Y a D mewn iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd hyn ac yn nodi sut y gellir cyflawni dull seiliedig ar dystiolaeth i ddatblygu polisi ac arfer.

Hilary Peplar

Cadeirydd, Grŵp Ymgynghorol Strategaeth Y a D Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Fframwaith Strategol Ymchwil a Datblygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Gymru

CRYNODEB GWEITHREDOL

- I. Yn y ddogfen Gwella Iechyd yng Nghymru: Cynllun i'r GIG a'i Bartneriaid nodwyd disgwyliadau clir ar gyfer ymchwil a datblygu ac er mwyn cyflawni'r disgwyliadau hynny dywedwyd y byddai strategaeth ymchwil a datblygu newydd yn cael ei chyhoeddi. Amlinellwyd yr un agenda gyffredinol ar gyfer gwasanaethau iechyd yn Adeiladu ar gyfer y Dyfodol ac ar gyfer yr agenda iechyd mwy cyffredinol yn Gwell Iechyd, Gwell Cymru. Yn ogystal â mynd i'r afael ag anghenion poblogaeth Cymru yn uniongyrchol mae Cymru wedi gwneud cyfraniad arwyddocaol i ddatblygu ymchwil yn y DU ac yn rhyngwladol yn enwedig ym maes gwyddorau sylfaenol a chlinigol ac mae'n hanfodol y parheir i wneud cyfraniadau o'r fath. Nodau'r fframwaith strategol ymgynghorol hwn yw datblygu'r seilwaith fel y gall Cymru ddatblygu i fod yn:

Wlad sy'n datblygu ei pholisïau ar sail tystiolaeth ac sydd â dulliau ar waith er mwyn i'r rheiny sy'n cynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol fod yn ymwybodol o ganlyniadau ymchwil gan eu defnyddio yn eu gwaith i wella iechyd a gofal cymdeithasol pobl Cymru.

- II. Bydd gweledigaeth o'r fath yn un hir dymor a bydd yn gofyn am ddull strategol i gyfeirio buddsoddiad mewn meysydd allweddol. Mae'r fframwaith strategol ymgynghorol hwn yn rhoi amlinelliad o sut mae cyflawni ymchwil a datblygu o fewn cyd-destun datblygu a gwerthuso polisi ar sail tystiolaeth. Mae tair rhan i'r fframwaith:

1. Cefndir a chyd-destun y fframwaith strategol
2. Y fframwaith Y a D i Gymru
3. Casgliadau a'r Camau Nesaf

Ar ddiwedd pob adran amlinellir cyfres o Gamau Allweddol sy'n awgrymu datblygiadau posibl wrth weithredu'r fframwaith strategol newydd.

- III. Bydd angen datblygiad hir dymor ar y weledigaeth a amlinellir. Am y 5 mlynedd gyntaf o weithredu'r fframwaith strategol nodir tri maes ddylai gael blaenoriaeth:
- Sefydlu seilwaith i gefnogi dadansoddiad o anghenion iechyd a gofal cymdeithasol y boblogaeth yng Nghymru
 - Creu gweithlu ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol sydd â'r gallu i ddarparu ymchwil o ansawdd uchel mewn meysydd allweddol

- Creu diwylliant a seilwaith lle gellir arfer a llunio polisi ar sail tystiolaeth.
- IV. Wrth sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999 crëwyd strwythur democrataidd newydd i Gymru a fforwm newydd i lunio polisi. Cafodd y Cynulliad Cenedlaethol y cyfrifoldeb am iechyd a gofal cymdeithasol a rhoddodd hyn gyd-destun hollol newydd ar gyfer ymchwil a datblygu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- V. Gellir adeiladu ar nifer o gryfderau allweddol. Mae i Gymru gyd-destun daearyddol, demograffig a diwylliannol amrywiol iawn gydag amrywiaeth o nodweddion poblogaeth. Gwelwyd traddodiad cryf o weithgaredd sy'n ymwneud ag ymchwil yng Nghymru. Cyfrannodd ymchwilwyr o Gymru nid yn unig at ymchwil leol ond at feysydd ymchwil yn y DU ac yn rhyngwladol. Dangosodd canlyniadau Ymarfer Asesu Ymchwil 2001 lle mae rhai o'r cryfderau hyn. Yng Nghymru ceir amrywiaeth o rwydweithiau cydlynol sy'n aml yn croesi llawer o'r ffiniau traddodiadol sy'n nodweddiadol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r holl nodweddion gyda'i gilydd yn cefnogi datblygiad gwaith aml sectorol, aml asiantaethol ac aml ddisgyblaethol o ran gwasanaeth ac ymchwil.
- VI. Gellir nodi tri maes sydd angen eu datblygu. Yn gyntaf, mae angen cyfeiriad clir a strategol newydd i Y a D yng Nghymru. Yn ail, mae angen adnoddau wedi'u targedu tuag at gyflawni cyfeiriad strategol newydd. Yn drydydd, yr angen am gynnydd yn nifer ac ansawdd ymchwilwyr i ddiwallu anghenion y blaenoriaethau strategol newydd fydd yn rhan annatod o ddatblygu cyfeiriad strategol newydd. Mae'r fframwaith strategol yn mynd i'r afael â'r rhain.
- VII. Er mwyn cyflawni rhaglen ymchwil a datblygu sy'n berthnasol i'r rheiny sy'n darparu a defnyddio gwasanaethau yng Nghymru mae angen sicrhau'r teimlad gan lawer eu bod wedi cyfrannu at y rhaglen Y a D. Yn ogystal â chynnwys pobl broffesiynol y gwasanaeth mae angen cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn gyffredinol mewn Y a D. Bydd eu cyfraniad hwy yn adlewyrchu'r grwpiau proffesiynol hynny sydd â diddordeb mewn ymchwil a datblygu sef:
- Gosod blaenoriaethau ar gyfer ymchwil
 - Y rhai sy'n cymryd rhan mewn ymchwil
 - Ymgymryd ag ymchwil
 - Y rhai sy'n derbyn canlyniadau ymchwil.
- VIII. O ganlyniad i fuddsoddi mewn Y a D o ansawdd uchel yng Nghymru ceir elw ar y buddsoddiad trwy fod yn fwy effeithiol wrth ddarparu gwasanaeth, a fydd o bosibl yn dod ag adnoddau ymchwil i Gymru neu yn datblygu technoleg. Mae tystiolaeth nad yw Cymru yn denu ei chyfran lawn o gyllid ymchwil allanol nad yw'n fasnachol. Mae'r sail cyllid ar gyfer ymchwil yng Nghymru yn gymharol fach o'i gymharu â rhannau eraill y DU. Ni ellir sicrhau cynnydd pellach yn y cyllidebau Y a D cyfredol a'r flaenoriaeth gyntaf yw adolygu'r defnydd

cyfredol a sicrhau bod cyllidebau cyfredol yn cael eu defnyddio mor effeithiol â phosibl.

Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r rhaglenni cyfredol yng ngoleuni'r fframwaith strategol newydd. Bydd yn angenrheidiol hefyd i asesu dilysrwydd cynigion y Cynulliad am gyllid yn ôl rhaglenni Y a D ehangach sydd ar waith mewn manau eraill yn y DU. Hefyd, mae angen sicrhau cymaint o adnoddau â phosibl o ffynonellau eraill.

IX. O fewn fframwaith ar gyfer datblygu a gwerthuso polisi ar sail Tystiolaeth gellir nodi pedwar maes ymchwil a datblygu sy'n gysylltiedig â'i gilydd sef:

- Cyd-destun – dadansoddi natur yr hyn sy'n penderfynu ar iechyd a lles cymdeithasol a'r galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a'u darparu
- Cynnwys – dadansoddi asesiadau ac ymyriadau effeithiol
- Gallu – datblygu gallu ymchwil i ddarparu cynnyrch Y a D o ansawdd uchel
- Cyfathrebu – newid canlyniadau Y a D yn arfer polisi a gwybodaeth gyhoeddus

X. Dangosodd y Cynulliad Cenedlaethol ymrwymiad i werthuso mentrau polisi. Mater allweddol wrth gynllunio a darparu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol fydd y gallu i fonitro tueddiadau mewn iechyd a lles cymdeithasol poblogaeth Cymru. Yr hyn sy'n ganolog i ddatblygu dulliau o'r fath yw bod gwybodaeth o ansawdd uchel ar gael i lywio'r modd y caiff polisi ei ddatblygu a'i werthuso. Mae angen cyffredinol i gynyddu'r gallu i ymgymryd â dadansoddiad o ansawdd uchel a chyfosod tystiolaeth ymchwil. Bydd datblygu cronfeydd data cenedlaethol sy'n canolbwyntio ar grwpiau o'r fath yn sicrhau y gellir comisiynu cynllunio ac ymchwil mwy manwl gywir.

XI. Nodwedd allweddol darparu gwasanaeth yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol oedd twf parhaus y galw gan arwain at fwy o bwysau i weithredu yn ogystal â chynyddu costau. Bydd dadansoddi'r ffactorau sy'n llywio'r galw yn gysylltiedig â gwaith ymchwil ar reoli'r galw a'r ymatebion mwyaf effeithiol i anghenion y boblogaeth yng Nghymru a'r goblygiadau i'r ddarpariaeth gwasanaeth. Yn y bôn gellir gweld hyn fel dadansoddiad o'r ffactorau galw a chyflenwi mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a'u rheolaeth.

XII. Mae traddodiad o ymchwil a datblygu o ansawdd uchel mewn gofal iechyd biomeddygol a chlinigol. Yn rhannol o ganlyniad i'r rhaglen ymateb gofal cymdeithasol, WORD, gwelwyd twf yn ddiweddar mewn ymchwil yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar arfer ym maes gofal cymdeithasol. Cynigir gweithredu rhaglenni 5 mlynedd ym meysydd allweddol y Cynulliad Cenedlaethol sy'n flaenoriaeth megis canser, iechyd meddwl a phlant a bod y rhain yn cael eu gweithredu'n lleol, yn genedlaethol ac yn y DU.

XIII. Yr hyn sy'n dyngedfennol i ddatblygiad llwyddiannus ymchwil a datblygu yng Nghymru yw gweithlu ymchwil o ansawdd uchel. Mae llawer o ymchwilwyr o safon ryngwladol yng Nghymru ac yn amlwg bydd angen i'r strategaeth sicrhau bod yr ymchwilwyr hynny'n aros

yng Nghymru a bod ymchwilwyr newydd o ansawdd uchel yn parhau i ymddangos. Mae angen dull cydlynol tuag at ddatblygu gweithlu ymchwil. Bydd angen gwneud hyn mewn cydweithrediad ag eraill sydd â chyfrifoldeb am ddatblygiad proffesiynol yn y sectorau gwasanaeth ac academaidd a gallai gynnwys mentrau ariannu ar y cyd ar gyfer meysydd sy'n flaenoriaeth penodol yng Nghymru.

- XIV. Yn draddodiadol wrth reoli ymchwil, mae llawer o sylw wedi bod ar y broses gomisiynu gyda llai o sylw yn cael ei roi i sicrhau bod canlyniadau'r ymchwil yn cael eu defnyddio. I fod yn onest, ychydig bwrpas sydd i'r ymchwil a'r datblygu gorau os gweithredir hwy mewn gwagle ac os nad yw'r canlyniadau'n cael eu rhannu gyda'r rheiny sy'n gweithio yn y gwasanaethau neu mewn gwaith ymchwil tebyg. Bydd angen sicrhau bod canlyniadau ymchwil yn cael eu defnyddio yn gynnar iawn yn y broses gomisiynu. Rhaid nodi cwsmeriaid clir wrth gychwyn rhaglen ymchwil a chynllunio a rhaid cael rhaglen wedi'i chynllunio ar gyfer rheoli'r gwaith o ddsbarthu a defnyddio'r canlyniadau. Bydd atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng arfer, addysgu a hyfforddi ag ymchwil a datblygu yn hanfodol er mwyn creu sefyllfa o'r fath. Yn ogystal bydd angen datblygu'r cysylltiad rhwng ymchwil a datblygu a mentrau gwella ansawdd eraill megis archwilio ac arolygu a rheoli perfformiad.
- XV. Mae'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu cydnabod yn fwyfwy fel elfennau allweddol yn economi Cymru. Yn gyntaf hwy yw'r prif gyflogwyr yng Nghymru. Yn ail, maent yn ffynonellau dyfeisio a datblygu technolegau newydd y gellir elwa arnynt yn fasnachol. Datblygir fframwaith o egwyddorion gweithredu i'r rheiny sy'n gweithio mewn gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol neu sy'n cydweithio â'r sector hwn ar y gweithdrefnau ar gyfer elwa'n fasnachol ar ddyfeisiadau newydd sy'n deillio o Y a D.
- XVI. Mae'r fframwaith strategol hwn wedi amlinellu cyfeiriad i Y a D yng Nghymru a'i fwriad yw cyflawni'r nod o weld Cymru yn tyfu'n wlad a gydnabyddir fel un sy'n datblygu arfer a pholisi ar sail tystiolaeth o ansawdd uchel. Amlinellwyd fframwaith hir dymor i gyflawni nod o'r fath. Nodwyd tri maes fel rhai sy'n flaenoriaeth ar gyfer pum mlynedd gyntaf gweithredu'r fframwaith strategol sef:
- Sefydlu seilwaith i gefnogi dadansoddiad o anghenion iechyd a gofal cymdeithasol poblogaeth Cymru
 - Creu gweithlu ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol sydd â'r gallu i ddarparu ymchwil o ansawdd uchel mewn meysydd allweddol
 - Creu diwylliant a seilwaith lle gellir llunio polisi ac arfer ar sail tystiolaeth.
- XVII. Yn dilyn cyfnod ymgynghori cynhyrchir cynllun gweithredu pum mlynedd a fydd, yn ogystal â nodi ffyrdd i weithredu'r strategaeth, hefyd yn asesu goblygiadau'r strategaeth i sectorau a grwpiau allweddol sydd â diddordeb mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

Fframwaith Strategol Ymchwil a Datblygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Gymru

1. Cyflwyniad

“Gweledigaeth y dyfodol yw un o addysgu, ymchwil a rhwydwaith arbenigol integredig sydd â'r gallu i ddarparu gwasanaethau o safon byd i bobl Cymru a chynhyrchu pobl broffesiynol o'r radd uchaf i ddiwallu anghenion y system gofal iechyd gyfan.”

- 1.1 Yn y ddogfen *Gwella Iechyd yng Nghymru: Cynllun i'r y GIG a'i Bartneriaid* nodwyd disgwyliadau clir ar gyfer ymchwil a datblygu ac er mwyn cyflawni'r disgwyliadau hynny dywedwyd y byddai strategaeth ymchwil a datblygu newydd yn cael ei chyhoeddi. Amlinellwyd yr un agenda gyffredinol ar gyfer gwasanaethau iechyd yn Adeiladu ar gyfer y Dyfodol ac ar gyfer yr agenda iechyd mwy cyffredinol yn Gwell Iechyd, Gwell Cymru. Yn ogystal â mynd i'r afael ag anghenion poblogaeth Cymru yn uniongyrchol mae Cymru wedi gwneud cyfraniad arwyddocaol i ddatblygiad ymchwil yn y DU ac yn rhyngwladol yn enwedig ym maes gwyddorau sylfaenol a chlinigol ac mae'n hanfodol y parheir i wneud cyfraniadau o'r fath. Nodau'r fframwaith strategol ymgynghorol hwn yw datblygu'r seilwaith er mwyn i Gymru allu datblygu i fod yn:

Wlad sy'n datblygu ei pholisiau ar sail tystiolaeth ac sydd â dulliau ar waith er mwyn i'r rheiny sy'n cynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol fod yn ymwybodol o ganlyniadau ymchwil gan eu defnyddio yn eu gwaith i wella iechyd a gofal cymdeithasol pobl Cymru.

- 1.2 Bydd gweledigaeth o'r fath yn un hir dymor a bydd yn gofyn am ddull strategol i gyfeirio buddsoddiad mewn meysydd allweddol. Mae'r fframwaith strategol ymgynghorol hwn yn rhoi amlinelliad o ddull o gyflawni ymchwil a datblygu o fewn cyd-destun datblygu a gwerthuso polisi ar sail tystiolaeth. Mae tair rhan i'r fframwaith:
1. Cefndir a chyd-destun y fframwaith strategol
 2. Y fframwaith Y a D i Gymru
 3. Y Casgliadau a'r Camau Nesaf

Ar ddiwedd pob adran amlinellir cyfres o Gamau Allweddol sy'n awgrymu datblygiadau posibl wrth weithredu'r fframwaith strategol newydd. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori cyhoeddir fframwaith a fydd yn cynnwys cynllun gweithredu 5 mlynedd er mwyn gweithredu'r cynllun.

- 1.3 Bydd angen datblygiad hir dymor ar y weledigaeth a amlinellir. Am y 5 mlynedd gyntaf o weithredu'r fframwaith strategol nodir tri maes i roi blaenoriaeth iddynt:
- Sefydlu seilwaith i gefnogi dadansoddiad o anghenion iechyd a gofal cymdeithasol y boblogaeth yng Nghymru
 - Creu gweithlu ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol sydd â'r gallu i ddarparu ymchwil o ansawdd uchel mewn meysydd allweddol
 - Creu diwylliant a seilwaith lle gellir arfer a llunio polisi ar sail tystiolaeth
- 1.4 Dylid ystyried dyrannu adnoddau i ymchwil a datblygu fel buddsoddiad a dylid disgwyl manteision amrywiol o ganlyniad i fuddsoddi o'r fath. Dyma enghreifftiau o'r cyfraniad y gall Y a D ei wneud i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol ac yn fwy cyffredinol i economi a chymdeithas Cymru:
- Mae'n hyrwyddo diwylliant chwilfrydig ac felly'n gwella ansawdd ac yn darparu sbardun ar gyfer newid;
 - Mae'n sail i addysg a datblygiad proffesiynol ac yn gwella ansawdd ymarferwyr sy'n cymhwyso;
 - Mae'n darparu gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n penderfynu ar iechyd a lles cymdeithasol gwael ac ymddygiad sy'n gofyn am sylw.
 - Mae'n datblygu technolegau newydd i fynd i'r afael ag anghenion y boblogaeth;
 - Mae'n sicrhau bod polisi yn cael ei ddatblygu mewn ffyrdd effeithiol;
 - Gall cyfle i gymryd rhan mewn Y a D fod o gymorth i recriwtio a chadw staff o ansawdd uchel;
 - Gall diwylliant Y a D gweithgar gyfrannu at yr economi cenedlaethol trwy ddenu buddsoddiad a thrwy fanteisio ar dechnolegau newydd
 - Gall ymchwil a datblygu wella hyder y cyhoedd mewn gwasanaethau; ac
 - Mae'n cyfrannu at barch tuag at unigolion, sefydliadau a chenedl.

Cefndir a Chyd-destun y Fframwaith Strategol

2. Cyd-destun y Cynulliad Cenedlaethol

2.1 Wrth sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999 crëwyd strwythur democrataidd newydd i Gymru a fforwm newydd i lunio polisi. Cafodd y Cynulliad Cenedlaethol y cyfrifoldeb am iechyd a gofal cymdeithasol a darparodd hyn gyd-destun hollol newydd ar gyfer ymchwil a datblygu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Yn ei gynllun gweithredol *Cynllun i Gymru* cafwyd neges glir gan y Cynulliad ei fod am gael sail tystiolaeth gadarn i'w bolisïau ac mae'n datblygu strategaeth ymchwil a datblygu ar gyfer y Cynulliad. Sefydlwyd grŵp Y a D newydd i gefnogi datblygu'r agenda Y a D. Mae *Cynllun i Gymru* wedi amlinellu'r ffordd y mae'r Cynulliad am weld Cymru fel gwlad sy'n dysgu gyda chysylltiadau clir rhwng y sector academiaidd ac ymchwil a datblygu a'r sectorau diwylliant a gwasanaeth.

2.2 O ganlyniad i sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol hefyd ailddiffiniwyd y blaenoriaethau ar gyfer datblygu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mewn llawer achos blaenoriaethau yw'r rhain a rennir gan wledydd eraill y DU megis canser, clefyd coronaidd y galon, iechyd meddwl a chefnogi plant ac mae cyfraniad parhaus Cymru i'r mentrau hyn yn flaenoriaeth. Fodd bynnag, mae yna feysydd hefyd lle bydd polisïau yng Nghymru yn wahanol, megis yn achos datblygu Strategaeth i Bobl Hŷn yng Nghymru, ac yn y meysydd hyn bydd angen sail ymchwil gadarn i gyfrannu at ddatblygiad polisïau o'r fath. Amlinellwyd tri amcan cyffredinol fel sail i waith y Cynulliad Cenedlaethol hefyd yn *Cynllun i Gymru* sef cyflawni:

- cyfle cyfartal
- datblygu cynaliadwy; a
- mynd i'r afael ag anfantais cymdeithasol.

Mae'r tri maes hwn yn berthnasol iawn i bolisi iechyd a gofal cymdeithasol a darparu gwasanaeth.

2.3 Fel y nodwyd uchod, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi dangos ymrwymiad i ddatblygu ei bolisïau ar sail y dystiolaeth orau sydd ar gael. Mae'r ymrwymiad yn cynnwys:

- Llundio polisi ar sail tystiolaeth a gwerthuso dylanwad polisi
- Darparu gwasanaeth ar sail tystiolaeth o ansawdd uchel
- Ymrwymiad i ddatblygu gweithlu Y a D medrus iawn

- Ymrwymiad i sicrhau bod canlyniadau ymchwil a gwerthuso ar gael ac y gweithredir arnynt

3. Rheoli Ymchwil yng Nghymru

- 3.1 Ymgwymerwyd â rhaglenni Y a D iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru gan Swyddfa Ymchwil a Datblygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru (WORD). Lleolwyd adran weinyddu WORD yng Ngholeg Meddygaeth Prifysgol Cymru tan iddi ddod yn rhan o'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Ebrill 2000. Yn 2000 sefydlwyd Bwrdd Y a D Iechyd a Gofal Cymdeithasol newydd o fewn y Cynulliad i oruchwylio rhaglen Y a D Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n uniongyrchol atebol i'r Cyngor Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Yn 2002 sefydlir Pwyllgor Ymgynghorol Cenedlaethol newydd i gynghori'r Cynulliad Cenedlaethol ar faterion sy'n ymwneud ag Y a D Iechyd a gofal cymdeithasol.
- 3.2 Gwelwyd datblygiadau ym maes Y a D Iechyd a gofal cymdeithasol dros y degawd diwethaf a fydd yn gosod seiliau cadarn i adeiladu arnynt. Mae'r seiliau hyn yn cynnwys strategaeth ymchwil a datblygu gofal cymdeithasol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 1998. O ganlyniad mae rhaglen gydlynol o Y a D gofal cymdeithasol wedi bod yn datblygu sydd â chysylltiad agosach â'r broses datblygu polisi yn ogystal â rhaglen barhaus, ond ar raddfa fach, o gefnogaeth i gynigion ymchwil modd ymatebol.
- 3.3 Cychwynnodd rownd gyntaf y grantiau iechyd ym 1994 ar sail un cylch y flwyddyn. Fodd bynnag, wrth staffio swyddfa WORD yn llawn yn ystod 1995 gweithredwyd y cynllun hwn wedyn yn fwy aml (hyd at ddau gylch y flwyddyn yn ystod 1996). Yn ogystal gweithredwyd rhaglenni ychwanegol o ddyfarnu grantiau bach ac ysgoloriaethau a chymrodoriaethau. Ym 1998 trosglwyddwyd y Cynllun Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru i WORD hefyd. Mae amrywiaeth o drefniadau ymgynghori ac asesu yn bodoli ar gyfer dewis a goruchwylio prosiectau a grantiau posibl.
- 3.4 Ym 1999 cyhoeddwyd y ddogfen Gwneud Gwahaniaeth oedd yn amlinellu'r fframwaith cyffredinol ar gyfer Y a D oedd yn ymwneud ag iechyd yng Nghymru. Ni welwyd strategaeth lawn fodd bynnag gan fod WORD wedi'i adolygu ac oherwydd y penderfyniad i wneud WORD yn rhan o'r Cynulliad Cenedlaethol.
- 3.5 Mae'r fframweithiau a amlinellwyd yn y strategaeth Y a D gofal cymdeithasol a Gwneud Gwahaniaeth yn dal yn berthnasol. Fodd bynnag, mae angen gosod amcanion cliriach yng nghyd-destun blaenoriaethau'r Cynulliad Cenedlaethol ac i

adlewyrchu'r newidiadau sy'n digwydd yng ngwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, mewn Addysg Uwch ac mewn Y a D.

- 3.6 Yn 2001 cyhoeddwyd Fframwaith Llywodraeth Ymchwil yng Nghymru gan ddefnyddio, i raddau helaeth, ddeunydd yn y ddogfen a ddatblygwyd yn Lloegr ac a gyflwynwyd hefyd yn Yr Alban. Datganiad o safonau ar gyfer cynnal ymchwil mewn iechyd a gofal cymdeithasol yw'r ddogfen yn bennaf. Bydd y safonau ansawdd hyn yn sail i ymchwil a gynhelir mewn iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ac felly'n sicrhau ansawdd yr ymchwil a diogelwch a lles yn rhai sy'n cymryd rhan mewn ymchwil. Ym 1999 sefydlwyd tair Uned Gefnogi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar sail ranbarthol ac Uned Gefnogi Ymchwil Gofal Sylfaenol Cymru Gyfan i ddarparu cefnogaeth i'r rheiny sy'n ymgymryd ag ymchwil yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Adolygwyd yr Unedau hyn yn annibynnol a defnyddir canlyniadau'r adolygiad i lywio datblygiad cynllun gweithredu ar gyfer fframwaith strategol iechyd a gofal cymdeithasol.
- 3.7 Dros y chwe blynedd diwethaf mae'r gefnogaeth ar gyfer Y a D y GIG wedi datblygu trwy'r Cynllun Cyllido Darparwyr. Mae hyn yn parhau i ddatblygu ac mae mentrau cyfredol yn cynnwys sefydlu ffrwd o gyllid Cefnogi Gwyddoniaeth a fydd yn darparu cyllid ar sail fformiwla i gyrrff GIG sy'n weithgar mewn ymchwil. Yn ogystal bydd y newidiadau i'r Cynllun Cyllido Darparwyr yn cynnwys datblygu cyllid Blaenoriaethau ac Anghenion i gefnogi rhaglenni cefnogi ymchwil a luniwyd i fynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol y Cynulliad Cenedlaethol a'r GIG.
- 3.8 Mae dau ddatblygiad pellach yng Nghymru a Lloegr wedi dylanwadu ar Y a D. Ym 1999 sefydlwyd y Sefydliad Cenedlaethol er Rhagoriaeth Glinigol sy'n gwsmer parod ar gyfer ymchwil mewn gofal iechyd. Yn 2001 sefydlwyd y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth fel corff ar gyfer Cymru a Lloegr i nodi ymyriadau effeithiol mewn gofal cymdeithasol a datblygu canllawiau ar gyfer darparu gwasanaeth. Mae'r ddau gorff hyn yn pwysleisio dulliau ar sail tystiolaeth ar gyfer darparu a datblygu iechyd a gofal cymdeithasol.
- 3.9 Mae nifer o fentrau cyfredol yn debygol o ddylanwadu ar ddatblygiad ymchwil a datblygu yng Nghymru ac wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r fframwaith strategol newydd. Mae'r rhain yn cynnwys adolygu addysg uwch yng Nghymru, yr Ymarfer Asesu Ymchwil ac ehangu addysg glinigol yng Nghymru. Bydd gweithredu cynllun y GIG Gwella Iechyd yng Nghymru yn darparu cyd-destun gweithredol newydd ar gyfer cynnal ymchwil.

4. Cryfderau i Adeiladu Arnynt

- 4.1 Gellir adeiladu ar nifer o gryfderau allweddol. Mae gan Gymru gyd-destun daearyddol, demograffig a diwylliannol amrywiol iawn gydag amrywiaeth o nodweddion poblogaeth. Mae maint y boblogaeth a'r raddfa darparu gwasanaeth yn ei gwneud yn unigryw yn y DU o ran y potensial ar gyfer astudiaethau poblogaeth a gwerthuso dylanwad mentrau polisïau ar y boblogaeth yng Nghymru. Bydd astudiaethau o'r fath yn berthnasol i rannau eraill y DU ac yn rhyngwladol.
- 4.2 Gwelwyd traddodiad cryf o weithgaredd sy'n ymwneud ag ymchwil yng Nghymru. Mae ymchwilwyr o Gymru wedi cyfrannu nid yn unig at ymchwil leol ond maent wedi cyfrannu at ymchwil yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae canlyniadau'r Ymarfer Asesu Ymchwil 2001 wedi dangos lle mae rhai o'r cryfderau hyn:
- Roedd Seicoleg ledled Cymru yn uchel ar restr yr Ymarfer Asesu Ymchwil gyda llawer iawn o'r ymchwil seicolegol yn canolbwyntio ar faterion iechyd a gofal cymdeithasol megis iechyd meddwl neu ddatblygiad plant.
 - Mae'r gwyddorau labordy wedi parhau i gynnal safon uchel ledled y sefydliadau academaidd yng Nghymru.
 - Mae gwaith clinigol fel y gwaith sy'n cael ei wneud mewn canser wedi cael ei gydnabod fel gwaith o safon uchel.
 - Mae adrannau unigol sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol hefyd wedi dangos eu bod yn cynhyrchu gwaith o safon uchel iawn gan gynnwys meddygon teulu, fferylliaeth, proffesiynau sy'n gysylltiedig â meddygaeth a gwaith cymdeithasol.
 - Mae'r penderfyniad diweddar i sefydlu parc gwybodaeth genynnau yng Nghymru fydd yn cynnwys cydweithrediad rhwng sefydliadau addysg uwch, y GIG, Techniquet ac Awdurdod Datblygu Cymru yn ffordd o ddangos sut y gall mentrau cydweithredol arwain at gyllid ar gyfer datblygiadau arloesol mewn gofal cleifion a datblygiad technolegol.
- 4.3 Felly, yng Nghymru gwelir ystod eang o ymchwil o ansawdd uchel a all gystadlu ar lwyfan byd yn ogystal â mynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol y gwasanaethau yng Nghymru. Bydd canlyniad yr Ymarfer Asesu Ymchwil 2001, yn golygu y gellir disgwyl cyllid ymchwil craidd mewn Addysg Uwch oddi wrth Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.
- 4.4 Mae amrywiaeth eang o rwydweithiau cydweithredol sy'n aml yn croesi ffiniau traddodiadol nodweddion iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r cysylltiadau rhwng iechyd a gofal cymdeithasol wedi bod yn datblygu dros flynyddoedd lawer yn narpariaeth a datblygiad y gwasanaeth. Mae rhwydweithiau ar

gyfer darparu gwasanaeth sy'n ymestyn dros Gymru gyfan yn cael eu datblygu. Mae'r rhain i gyd yn uno i gefnogi gwaith aml-sectorol, aml-asiantaethol ac aml-ddisgyblaethol o ran gwasanaeth ac ymchwil.

5. Meysydd i Fynd i'r Afael â Hwyl

- 5.1 Gellir nodi tri maes sydd angen eu datblygu. Yn gyntaf, mae angen cyfeiriad strategol clir a newydd i Y a D yng Nghymru. Yn ail, mae angen adnoddau wedi'u targedu tuag at gyflawni'r cyfeiriad strategol newydd. Yn drydydd, yr angen am gynydd yn nifer ac ansawdd ymchwilwyr i ddiwallu anghenion y blaenoriaethau strategol newydd fydd yn rhan annatod o ddatblygu'r cyfeiriad strategol newydd. Mae'r fframwaith strategol yn mynd i'r afael â'r rhain.

6. Ehangder y Fframwaith Strategol

- 6.1 Mae'r fframwaith strategol hwn yn cwmpasu ystod eang o waith ymchwil. Mae'r ystod yn cynnwys ymchwil sylfaenol mewn labordai, ymchwil glinigol a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Amlygodd sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol yr angen i wneud mwy o ymchwil i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Fodd bynnag amlygodd yr Ymarfer Asesu Ymchwil gryfder ymchwil labordai ac ymchwil clinigol yng Nghymru ac mae'n dyngedfennol fod Cymru'n parhau i gyfrannu ar lefel y DU ac yn rhyngwladol yn y meysydd hyn.
- 6.2 Roedd cwmpas eang y fframwaith strategol hwn yn ystyriaeth allweddol wrth ei ddatblygu. Iechyd a gofal cymdeithasol fydd canolbwynt y ddogfen gan gydnabod anghenion amlwg y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol yn ogystal â lle mae manteision pwysig i ddulliau gweithio ar y cyd. Yr egwyddor gyffredinol a fabwysiadir yw, os nad oes anfantais arbennig i sector penodol, yna dylid gweithredu dulliau ar y cyd.
- 6.3 O fewn ystyriaethau gwasanaeth iechyd bydd angen amlygu anghenion unigryw meysydd megis gofal sylfaenol neu grwpiau proffesiynol GIG ond eto dulliau aml-ddisgyblaethol neu gydweithio ddylai fod yn egwyddor allweddol. Yn amlwg mae diddordebau iechyd a gofal cymdeithasol yn ehangach na rhai'r GIG neu adrannau gwasanaethau cymdeithasol. Bydd patrymau newydd buddsoddi i weithredu'r fframwaith strategol yn sicrhau yr eir i'r afael ag ymchwil a datblygu iechyd y cyhoedd, Y a D hybu iechyd, hefyd cynhwysiad cymdeithasol a pholisïau mwy cyffredinol megis cyfiawnder yr ifanc ac y byddant yn cael eu cysylltu'n briodol i ymchwil a datblygu iechyd a gofal cymdeithasol.

- 6.4 Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi pwysleisio pwysigrwydd mentrau sy'n torri ar draws ffiniau polisi traddodiadol. Yn wir mae'r gallu i groesi ffiniau o'r fath yn gryfder y gellir elwa ohono yng Nghymru. Sefydlwyd dulliau lle gall Y a D prif ffrwd iechyd a diogelwch fod yn gysylltiedig â materion ehangach megis tai neu ddatblygu economaidd o fewn y Cynulliad Cenedlaethol a byddant yn cefnogi datblygu Y a D ledled yr ystod eang o ddiddordebau sydd gan y grwpiau cyfansoddol allweddol yng Nghymru.

7. Cynnwys Budd-ddeiliaid mewn Ymchwil a Datblygu

- 7.1 Er mwyn cyflawni rhaglen ymchwil a datblygu sy'n berthnasol i'r rheiny sy'n darparu gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau yng Nghymru mae angen sicrhau bod llawer yn teimlo'u bod wedi cyfrannu at y rhaglen Y a D. Bydd hyn yn sicrhau hefyd y bydd canlyniadau ymchwil yn cael eu defnyddio i gyfrannu at ddatblygiad arfer a pholisi. Bydd sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol Cenedlaethol Ymchwil a Datblygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn rhoi dull ffurfiol o sicrhau mwy o berchnogaeth. Bydd y Pwyllgor yn cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn ag Y a D iechyd a gofal cymdeithasol a bydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Cynulliad Cenedlaethol, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, addysg uwch, noddwyr ymchwil, y sector gwirfoddol a defnyddwyr gwasanaeth.
- 7.2 Mae'r cyhoedd a'r rheiny sy'n defnyddio gwasanaethau yn fudd-ddeiliaid allweddol yn y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae nifer o bapurau gwyn a gwyrdd sy'n cynnwys Gwell Iechyd, Gwell Cymru, Adeiladu ar gyfer y Dyfodol, Moderneiddio Llywodraeth Leol ac yn fwy diweddar Gwella Iechyd yng Nghymru wedi rhoi gorchymyn cyffredinol i gynyddu cyfranogaeth defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae'r pwyslais newydd hwn wedi'i lunio i sicrhau bod gwasanaethau yn fwy atebol ac yn fwy agored a'u bod yn cadarnhau sefyllfa'r claf/defnyddiwr a'r cyhoedd yn ehangach fel rhywbeth sy'n ganolog i gynllunio a darparu gwasanaeth. Mae angen dull tebyg mewn Y a D yng Nghymru. Cydnabyddir bod yna amrywiaeth o ddefnyddwyr sy'n fudd-ddeiliaid posibl yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol sy'n amrywio o ddefnyddwyr uniongyrchol y gwasanaethau i'r cyhoedd yn fwy cyffredinol fel defnyddwyr posibl a defnyddwyr tebygol gwasanaethau. Mewn perthynas ag Y a D dylid cynnwys safbwynt mwyaf priodol y defnyddwyr. Mewn rhai achosion gall y rhain fod yn rhai sydd â diddordeb uniongyrchol yn y gwasanaeth hwnnw ond mewn achosion eraill efallai y gall barn ehangach fod yn fwy priodol.

- 7.3 Gellir nodi pedwar prif faes ar gyfer cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd ehangach mewn Y a D a fydd yn adlewyrchu rhai'r grwpiau proffesiynol sydd â diddordeb mewn ymchwil a datblygu sef:
- Gosod blaenoriaethau ar gyfer ymchwil
 - Y rhai sy'n cymryd rhan mewn ymchwil
 - Ymgymryd ag ymchwil
 - Y rhai sy'n derbyn canlyniadau ymchwil.

Bydd angen cynllunio gofalus i sicrhau cyfranogaeth effeithiol gan fudd-ddeiliaid er mwyn osgoi creu sefyllfa arwynebol a sicrhau bod safbwynt y defnyddiwr yn gallu cael ei gynnwys yn llawn yn natblygiad Y a D yng Nghymru.

- 7.4 Y grŵp arall o fudd-ddeiliaid pwysig yn natblygiad Y a D iechyd a gofal cymdeithasol yw'r ystod eang o staff sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Nod allweddol y fframwaith strategol yw datblygu diwylliant sy'n meithrin ymwybyddiaeth a defnydd o ganlyniadau Y a D mewn arferion bob dydd. Er mwyn cyflawni gwell ymdeimlad o berchnogaeth gan ymarferwyr mae angen i ymchwil fod yn fwy hygyrch ac uniongyrchol berthnasol i waith dyddiol staff a rheolwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Mae adran 13 yn mynd i'r afael â hyn.

CAMAU ALLWEDDOL

- Sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol Cenedlaethol Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn 2002
- Datblygu a gweithredu dulliau ar gyfer cynnwys defnyddwyr yn ystod camau allweddol y broses ymchwil.

8. Buddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu yng Nghymru

- 8.1 Mae'r canlynol yn rhoi gorolwg o ariannu ymchwil sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Dyma'r bedair brif ffynhonnell gyllid:
- cyllid gan gyrff y llywodraeth gan gynnwys y Cynulliad Cenedlaethol;
 - cyllid gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;
 - cyllid elusennol a;
 - chyllid gan ddiwydiant.
- 8.2 Mae data ar gyfer 1999/2000 yn nodi bod prifysgolion Cymru wedi derbyn 4.7% (£11 miliwn) o gyfanswm gwariant y DU gan ffynonellau diwydiannol ar bob math o Y a D. Mewn perthynas â chyllid elusennol, gwariwyd 2.1% (£10.4 miliwn) yng Nghymru. Nid yw'r graddau y mae cyllid o'r fath yn ymwneud â iechyd a gofal cymdeithasol ar gael ar hyn o bryd. Eto yn 2000/2001 derbyniodd Cymru 3.2% o gyllid Cyngor Ymchwil gyda £3.4 miliwn gan y Cyngor Ymchwil Meddygol a £2.4 miliwn gan y Cyngor

Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol gyda £380,000 o hwnnw'n ymwneud ag iechyd neu ofal cymdeithasol. Mae'r ffigurau hyn yn nodi nad yw Cymru yn cael y lefel o gyllid gan y ffynonellau hyn y gellid ei ddisgwyl ar sail per capita.


- 8.3 Yn 2001/02, mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn darparu £59.2 miliwn ar gyfer ymchwil i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru - £45.8 miliwn trwy'r prif grant ymchwil, £11.7 miliwn trwy'r grant cyfalaf ar gyfer seilwaith ymchwil, a'r £1.7 miliwn sy'n weddill trwy fentrau arbennig. O'r £45.8 miliwn a ddarperir, sicrhawyd £11.1 miliwn ar gyfer gwaith ymchwil oedd yn berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol. O 2002/03 ymlaen bydd y prif ddyfarniadau grant ymchwil yn seiliedig ar ganlyniadau Ymarfer Asesu Ymchwil 2001.
- 8.4 Darparodd y Cynulliad Cenedlaethol, trwy Swyddfa Ymchwil a Datblygu Cymru, £15 miliwn i gefnogi ymchwil oedd yn ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. O hwn gwariwyd £2.5 miliwn yn uniongyrchol gan y Cynulliad ar gynlluniau grant oedd yn ymwneud ag iechyd a £1.2 miliwn ar gynlluniau grant oedd yn ymwneud â gofal cymdeithasol. Gwariwyd yr £11.4 miliwn oedd yn weddill ar waith a wnaed gan Ymddiriedolaethau GIG a Gofal Sylfaenol trwy'r Cynllun Cyllido Darparwyr. Ym maes iechyd a gofal cymdeithasol roedd cyllid pellach ar gael trwy'r Grŵp Diogelu a Gwella Iechyd a thrwy'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau.
- 8.5 Yn gyffredinol, fel sy'n amlwg yn y tabl isod, roedd lefelau'r cyllid ar gyfer Y a D iechyd a gofal cymdeithasol ar sail per capita yng Nghymru yn is nag yn Lloegr a'r Alban. Fodd bynnag, nid yw'r gymhariaeth a roddir isod yn cynnwys meysydd gweithgarwch sy'n cael eu cynnwys yng nghyllid Lloegr a'r Alban yn enwedig y rheiny sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd.

Tabl 1. – Cymhariaeth o Gyllid Y a D yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn 2000/2001

| | 2000-2001 | Poblogaeth | Per capita |
|-----------------|-----------|------------|------------|
| Cymru | £ 13.8 | 2.9 | £ 4.71 |
| Lloegr | £ 448.8 | 49.9 | £ 8.98 |
| Yr Alban | £ 41.0 | 5.1 | £ 8.02 |


- 8.6 Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi ymrwymo i symleiddio'r ffrydiau cyllid sydd ar wahân ar hyn o bryd i gefnogi ymchwil sy'n mynd i'r afael ag anghenion y Cynulliad Cenedlaethol a'r boblogaeth yng Nghymru neu sy'n cefnogi datblygiad ymchwilwyr presennol a darpar-ymchwilwyr Cymru fel y gallant wneud cyfraniad ehangach i ddatblygu gwybodaeth mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Trwy uno'r cronfeydd cyfredol a symleiddio'r prosesau defnyddio a dyrannu, yn ôl blaenoriaethau cyffredin, nod y Cynulliad yw sicrhau bod cyllid y dyfodol wedi'i dargedu ac yn cael ei fonitro'n fwy agored ac effeithiol.

Cynlluniau Grant WORD Ymatebol ac a Gomisynwyd 2000/2001



- 8.7 Mae'r ffigwr uchod yn rhoi gorolwg o arian grant WORD yn 2001/2. Mae'r tabl yn dangos bod swm sylweddol o'r cyllid cyfredol yn cael ei ddyrannu i feysydd a nodwyd fel rhai sy'n flaenoriaeth yng Nghymru.
- 8.8 Mae'r ffigwr isod yn rhoi gorolwg o sut y caiff y cyllid ei ddyrannu trwy Gynllun Cyllido Darparwyr GIG i feysydd allweddol sy'n flaenoriaeth yng Nghymru. Mae'r cyllid hwn wedi'i ddyrannu'n bennaf ar sail rhaglenni a nodwyd gan Ddarparwyr GIG ac yn adlewyrchu fod yr arian hwnnw wedi'i rannu'n rhesymol ledled y meysydd sy'n

Dyraniadau Ariannol i Ddarparwyr y GIG 2000/2001



flaenoriaeth.

- 8.9 Gellir gwneud nifer o bwyntiau mewn perthynas ag ariannu Y a D yng Nghymru.
- I. Wrth buddsoddi mewn Y a D o ansawdd uchel yng Nghymru ceir elw ar y buddsoddiad trwy ddarparu gwasanaeth yn fwy effeithiol, gyda'r potensial o ddenu adnoddau ymchwil neu ddatblygu technoleg. Fodd bynnag gall yr elw fod llawer yn uwch nag y gellir ei amcangyfrif mewn termau ariannol yn unig. Dylid ystyried cyllido ymchwil fel buddsoddiad a fydd yn creu elw. Yn ogystal sefydlir dulliau i asesu elw ar y buddsoddiad a wneir mewn Y a D sy'n cynnwys asesiad ehangach o'r elw cymdeithasol y buddsoddi.
 - II. Mae tystiolaeth nad yw Cymru yn denu ei chyfrawn lawn bosibl o gyllid ymchwil allanol nad yw'n fasnachol. Nid oes canolfannau ymchwil yng Nghymru sy'n cael eu cyllido'n allanol o ffynhonnell nad yw'n fasnachol. Ystyria'r Cynulliad Cenedlaethol bod sefydlu canolfannau o'r fath yn flaenoriaeth allweddol ac felly mae'n cydnabod yr angen i ddarparu cefnogaeth i ymchwilwyr i sicrhau eu bod mewn sefyllfa dda i wneud cynnig am arian gan gyrrff cyllido yn y DU ac yn rhyngwladol.
 - III. Mae'r sail ariannu ar gyfer ymchwil yng Nghymru yn gymharol fach o'i chymharu â rhannau eraill y DU. Mae'n bwysig bod cyllid sydd ar gael yn cael ei ddyrannu i'r meysydd hynny lle mae angen penodol am ymchwil yng Nghymru ac i'r meysydd cadarn lle mae'r buddsoddiad yn debygol o arwain at gynnyrch o ansawdd uchel.
 - IV. Er mwyn gwneud y gorau o fanteision buddsoddi chwilir am gyfleoedd i gael cyllid allanol neu gyllid ar y cyd. Mae enghreifftiau o gydweithio gydag adrannau iechyd eraill i'w gweld eisoes ac edrychir ar gyfleoedd pellach i gydweithio gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Cynghorau Ymchwil neu arianwyr eraill yn y DU ac Ewrop.
 - V. Bydd natur y buddsoddi a wneir mewn meysydd penodol yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys yr angen mewn maes arbennig am sefydlogrwydd a chadarnhad hir dymor neu lle mae buddsoddi tymor byr yn debygol o arwain at elw. Gall y buddsoddi amrywio o gefnogaeth i ganolfannau neu rwydweithiau, rhaglenni gweithgaredd neu ariannu prosiectau.
 - VI. Ni ellir rhoi sicrwydd y bydd cyllidebau Y a D cyfredol yn cael eu cynyddu ymhellach a'r flaenoriaeth gyntaf yw adolygu'r defnydd cyfredol a sicrhau bod cyllidebau cyfredol yn cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r rhaglenni cyfredol yng ngoleuni'r fframwaith strategol newydd. Bydd hefyd angen asesu dilysrwydd cynigion am gyllid gan y Cynulliad yn erbyn rhaglenni ehangach Y a D sydd ar waith mewn rhannau eraill o'r DU. Hefyd, fel y nodwyd uchod, mae angen sicrhau bod cymaint o adnoddau â phosibl o ffynonellau eraill yn cael eu sicrhau.

CAMAU ALLWEDDOL

- Datblygu agwedd cydlynol at wariant Y a D gan ystyried pob llwybr cyllid sydd ar gael i ymchwilyr yng Nghymru.
- Sefydlu dulliau i dargedu gwariant iechyd a gofal cymdeithasol y Cynulliad Cenedlaethol ar flaenoriaethau allweddol.
- Cefnogi ymdrechion ymchwilyr i ddenu cyllid allanol i Gymru
- Cyflwyno dulliau i nodi'r elw o fuddsoddi mewn Y a D iechyd a gofal cymdeithasol


Y RHAGLEN YMCHWIL A DATBLYGU I GYMRU

Gweledigaeth y fframwaith strategol yw creu seilwaith a fydd yn galluogi Cymru i fod yn:

Wlad sy'n datblygu ei pholisïau ar sail tystiolaeth ac sydd â dulliau ar waith er mwyn i'r rheiny sy'n cynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol fod yn ymwybodol o ganlyniadau ymchwil gan eu defnyddio yn eu gwaith i wella iechyd a gofal cymdeithasol pobl Cymru.

Mae'r canlynol yn amlinellid o fframwaith o'r fath ac yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer 5 mlynedd gyntaf gweithredu'r fframwaith strategol.

Llunio Polisiâu a Gwerthuso ar sail Tystiolaeth



Gwneud Polisiâu a Gwerthuso ar sail Tystiolaeth

O fewn fframwaith ar gyfer **Datblygu a gwerthuso polisi ar sail tystiolaeth** gellir nodi pedwar maes Y a D sy'n gysylltiedig â'i gilydd sef:

- **Cyd-destun** – dadansoddi natur yr hyn sy'n penderfynu ar iechyd a lles cymdeithasol a'r galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a'u darparu
- **Cynnwys** – dadansoddi asesiadau ac ymyriadau effeithiol
- **Gallu** – datblygu gallu ymchwil i ddarparu cynnyrch Y a D o ansawdd uchel
- **Cyfathrebu** – newid canlyniadau Y a D i fod yn arfer polisi a gwybodaeth gyhoeddus

9. Datblygu a Gwerthuso Polisi

- 9.1 Dangosodd y Cynulliad Cenedlaethol ymrwymiad i werthuso mentrau polisi. Bydd lefel a dwysedd y gwerthuso yn adlewyrchu arwyddocâd y polisi sy'n cael ei weithredu neu hyd a lled y buddsoddiad yn y polisi hwnnw. Bydd o leiaf elfen o werthuso mewnol o fentrau polisi. Y lefel nesaf bydd cyfuniad o hunan werthuso wedi'i ategu gan werthuso allanol annibynnol. Yn achos y prif fentrau polisi bydd rhaglen werthuso annibynnol yn rhan annatod o ddatblygu a gweithredu polisi. Nodir cyfleoedd hefyd ar gyfer cynnwys dulliau arbrofol yn y broses o weithredu'r polisi trwy weithredu gam wrth gam neu gymharu gwahanol ddulliau.
- 9.2 Mater allweddol wrth gynllunio a chyflenwi darpariaeth gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol fydd y gallu i fonitro tueddiadau yn iechyd a lles cymdeithasol y boblogaeth yng Nghymru. Bydd dulliau o'r fath yn sicrhau bod dylanwad cyffredinol polisïau yn medru cael eu hasesu, yn caniatáu nodi pryderon iechyd neu gymdeithasol newydd ac yn darparu'r modd ar gyfer nodi meysydd ymchwil newydd. Bydd datblygu Canolfan Iechyd Cymru yn un o'r adnoddau pwysig ar gyfer cefnogi'r gwaith o nodi tueddiadau iechyd a chymdeithasol ac asesu'r perygl sydd ynghlwm â thueddiadau o'r fath.
- 9.3 Yn ganolog i ddatblygu dulliau o'r fath y mae sicrhau bod gwybodaeth o ansawdd uchel ar gael er mwyn llywio datblygiad a gweithrediad polisi. Bydd hyn yn cynnwys datblygu gallu o fewn y Cynulliad ar gyfer cyfosod tystiolaeth a pherthynas waith agosach gydag academwyr ac ymchwilwyr. Mae angen cyffredinol i gynyddu'r gallu i ymgymryd â gwaith dadansoddi o ansawdd uchel a chyfosod tystiolaeth ymchwil.
- 9.4 Er mwyn cyflawni'r Y a D mwyaf llwyddiannus a pherthnasol rhaid i flaenoriaethau ymchwil fod yn seiliedig ar ddata o ansawdd uchel ar grwpiau/ardaloedd yng Nghymru. Mae gwaith wedi cychwyn eisoes, er enghraifft, mewn perthynas â phlant a phobl ag anableddau. Bydd datblygu cronfeydd data cenedlaethol ar grwpiau o'r fath yn galluogi comisiynu gwaith cynllunio ac ymchwil mwy manwl gywir. Bydd y rhain hefyd yn caniatáu i dueddiadau gael eu monitro dros amser mewn sectorau allweddol ac yn cyfrannu at werthuso polisi. Cynigir y dylid datblygu cronfeydd data o'r fath o gyfuniad o ffynonellau gan gynnwys ystadegau, arolygon cenedlaethol ac astudiaethau hydredol.

CAMAU ALLWEDDOL

- Gwella'r broses o gasglu data, dilysrwydd a dadansoddi data arferol.
- Datblygu cysylltiad rhwng Y a D a datblygiadau rheoli gwybodaeth mewn iechyd a gofal cymdeithasol
- Sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o ddata sy'n bodoli eisoes
- Sicrhau bod cyngor arbenigol ar werthuso ar gael
- Sicrhau bod gwerthuso yn rhan o bob menter gwasanaeth newydd
- Creu dulliau i sicrhau bod sefydliadau iechyd ac awdurdodau lleol yn cydweithio ar fentrau newydd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gwerthuso'n gywir.

10. CYD-DESTUN – Rhaglen Defnyddio a Darparu Gwasanaeth

- 10.1 Nodwedd allweddol darparu gwasanaeth yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol oedd twf parhaus y galw gan arwain at fwy o bwysau i weithredu yn ogystal â chynyddu costau. Daeth y sefyllfa hon yn fwy amlwg gyda datblygiad technolegau newydd a newidiadau yn nodweddion demograffig ac economaidd-gymdeithasol y boblogaeth yng Nghymru a chynnydd yn y disgwyliadau o ran darparu gwasanaeth. Fodd bynnag, mae yna ansicrwydd o ran y ffactorau hynny sy'n llywio'r cynnydd mewn galw ac ai'r amrywiaeth cyfredol o ymatebion yw'r mwyaf priodol i'r unigolyn neu'r rhai mwyaf cost effeithiol.
- 10.2 Mae tair prif elfen i'r rhaglen Defnyddio a Darparu Gwasanaeth.
1. Dadansoddi'r hyn sy'n penderfynu ar iechyd a lles cymdeithasol a ffactorau sy'n llywio'r galw am wasanaethau
 2. Dadansoddi strwythurau, sefydliadau a rheoli darpariaeth gwasanaeth
 3. Nodi a dadansoddi canlyniadau darparu gwasanaeth i ddefnyddwyr/cleifion.
- 10.3 Bydd dadansoddi'r galw am gefnogaeth gwasanaeth yn cynnwys amrywiaeth o weithgarwch gan gynnwys y ffactorau economaidd-gymdeithasol a diwylliannol sy'n llywio'r gofynion gwasanaeth yn ogystal â ffactorau sy'n tanlinellu ymddygiad sy'n gofyn am sylw. Bydd y rhaglen hon yn gysylltiedig â diddordebau ehangach polisi economaidd a chymdeithasol y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd dadansoddi'r ffactorau sy'n llywio'r galw yn gysylltiedig â gwaith ymchwil ar reoli'r galw a'r ymatebion mwyaf effeithiol i anghenion y boblogaeth yng Nghymru a goblygiadau ar gyfer darparu gwasanaeth
- 10.4 Mae angen nodi'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol i'r boblogaeth yng Nghymru. Bydd datblygu dull ar sail tystiolaeth i ddadansoddi a

rheoli'r galw am wasanaethau yn gysylltiedig â datblygu'r gallu yng Nghymru i ddatblygu dull ar sail tystiolaeth i strwythur a rheolaeth gwasanaeth. Yn y bôn gellir ystyried hyn fel dadansoddi'r ffactorau galw a darparu mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a'u rheoli. Bydd angen i raglen o weithgarwch o'r fath fod â chysylltiad agos â datblygiad proffesiynol mewn cynllunio a rheoli iechyd a gofal cymdeithasol.

CAMAU ALLWEDDOL

- Sefydlu dulliau i gefnogi ymchwil i ffactorau galw a darparu mewn iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru
- Sefydlu cysylltiadau rhwng ymchwil i alw a darparu mewn iechyd a gofal cymdeithasol a mentrau rheoli iechyd a gofal cymdeithasol

11. CYNWYS – Rhaglen Ymchwil i Asesu ac Ymyrryd

- 11.1 Mae traddodiad o ymchwil a datblygu o ansawdd uchel mewn gofal iechyd biomeddygol a chlinigol. Yn rhannol o ganlyniad i'r rhaglen ymatebol gofal cymdeithasol, WORD, gwelwyd twf yn ddiweddar mewn ymchwil sy'n canolbwyntio ar arfer ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru. Trwy ddatblygu'r Sefydliad Cenedlaethol er Rhagoriaeth Glinigol a'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth cafwyd cyfle i sianelu canlyniadau ymchwil i ganllawiau ymarferol i ymarferwyr. Mae'r datblygiadau perthnasol yn y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol wedi darparu sail bellach lle gellir gweld bod ymchwil yn cyfrannu at ddyllanwadu'n uniongyrchol ar ansawdd y gofal a ddarperir.
- 11.2 I raddau helaeth bydd y cam i weithredu'r rhaglenni Y a D yn canolbwyntio ar weithgaredd clinigol neu grwpiau cleientiaid yn adeiladu ar waith a gychwynwyd eisoes yng Nghynllun Cyllido Darparwyr Y a D y GIG. Cynigir y bydd rhaglenni 5 mlynedd yn cael eu gweithredu ac y bydd y rhain yn cael eu gweithredu'n lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Bydd y mentrau a amlinellir isod yn cynnwys cyfraniadau i fentrau DU, rhaglenni gwaith a gomisiynwyd neu brosiectau ymchwil unigol.
- 11.3 Mae gwaith ar weithredu rhaglenni canser eisoes ar waith. Bydd y rhaglen ganser yn cynnwys cyfraniad i fentrau'r DU a rhai rhyngwladol megis Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Canser. Yn ogystal gwneir gwaith ymchwil sy'n berthnasol i Gymru, neu lle gall Cymru wneud cyfraniad i faes ehangach ymchwil canser. Bydd angen i'r gwaith

hwn adeiladu ar Rwydwaith Treialon Canser Cymru a'r cysylltiad â rhwydweithiau clinigol cancer a'r Grŵp Cydlynu Gwasanaethau Canser.

- 11.4 Bydd angen rhaglenni tebyg ym maes iechyd meddwl a gofal sylfaenol er, yn yr achosion hyn, mae rhaglenni o'r fath yn debygol o ganolbwyntio ar waith a nodwyd yn y strategaethau iechyd meddwl a gofal sylfaenol ac sydd â'r cwmpas i fwy o gydweithrediad rhwng iechyd, llywodraeth leol a sectorau gwirfoddol.
- 11.5 Mae cefnogi plant yn flaenoriaeth allweddol i'r Cynulliad. Yn y rhaglen gofal cymdeithasol cyfredol ariannwyd nifer o brosiectau ymchwil a gomisiynwyd yn y maes hwn. Bwriedir datblygu'r gwaith hwn ymhellach i ffurfio rhaglen 5 mlynedd o Y a D ym maes plant a theuluoedd. Yn yr un modd mae datblygiad cyfredol Strategaeth i Bobl Hŷn yng Nghymru yn cynnig cyfle i ddatblygu rhaglen waith ym maes cefnogi pobl hŷn.
- 11.6 Mae'r strategaeth Y a D yn rhoi cyfle i ddatblygu rhaglen Y a D iechyd y cyhoedd gan adeiladu ar yr Adolygiad o Iechyd y Cyhoedd a'r ymchwil a wnaed i iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Gallai dadansoddiad o'r ymchwil a wnaed gan awdurdodau iechyd ddarparu sail ar gyfer creu cyllideb Y a D iechyd y cyhoedd i Gymru.
- 11.7 Bydd datblygu llywodraeth glinigol ac arfer proffesiynol gofal cymdeithasol yn dibynnu ar y gallu i ymgymryd â dadansoddi manwl o ganlyniadau ymchwil sy'n bodoli eisoes mewn meysydd pwnc allweddol a newid y canlyniadau i fod yn ganllawiau i ymarferwyr. Bydd hyn nid yn unig yn cynnwys meithrin cysylltiadau agosach rhwng cymuned ymchwil Cymru a chyrrff megis y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth a'r Sefydliad Cenedlaethol er Rhagoriaeth Glinigol ond hefyd yn datblygu gallu cydnabyddedig o ansawdd uchel yng Nghymru i wneud gwaith o'r fath.

CAMAU ALLWEDDOL

- Datblygu treialon clinigol a rhwydweithiau ymchwil eraill mewn meysydd megis cancer, gofal sylfaenol, plant
- Datblygu gallu i gyfosod ymchwil yng Nghymru
- Sefydlu canolfannau ymchwil er rhagoriaeth, gan adeiladu ar seilwaith ac arbenigedd sy'n bodoli eisoes.
- Asesu ymyriadau newydd trwy sefydlu arfer o gydweithio rhwng rhwydweithiau ymchwil a darparwyr gwasanaeth.

12. GALLU – Rhaglen Datblygu Gallu Ymchwil

- 12.1 Yr hyn sy'n dyngedfennol i ddatblygu ymchwil a datblygu yn llwyddiannus yng Nghymru yw gweithlu o ansawdd uchel. Mae llawr o ymchwilwyr o safon ryngwladol yng Nghymru ac yn amlwg bydd angen i'r strategaeth sicrhau bod yr unigolion hynny'n aros yng Nghymru a bod ymchwilwyr o ansawdd uchel yn parhau i ymddangos. Mae angen cynllunio gofalus felly ar ddatblygu gallu ymchwil yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys yr angen i nodi meysydd polisi ac arfer sy'n flaenoriaeth uchel lle mae gallu ymchwil yn wan.
- 12.2 Amlygodd yr Ymarfer Asesu Ymchwil gryfder y gwyddorau sylfaenol a chlinigol yng Nghymru. Mae gwaith mewn labordai mewn gwyddoniaeth sylfaenol yn cael ei wneud nawr ar sail ryngwladol trwy rwydweithiau a grwpiau. Yn yr un modd, mae treialon clinigol yn cael eu gwneud yn y DU ac yn rhyngwladol. Rhaid i'r gweithgarwch hwn barhau i gael cefnogaeth. Y prif ddull o gefnogaeth o Gymru fydd sicrhau bod ymchwilwyr medrus yn cael eu datblygu yng Nghymru i weithio yn y meysydd tyngedfennol hyn.
- 12.3 Mae recriwtio a chadw staff o ansawdd uchel yn cynyddu mewn pwysigrwydd yn y sector cyhoeddus. Fel y nodwyd yn *Gwella Iechyd Cymru* mae gan ymchwil a datblygu ran i chwarae i gynorthwyo i recriwtio a chadw staff a hefyd i gynnal a chadw ansawdd darpariaeth y gwasanaeth yn gyffredinol. Yn yr un modd, mae gwaith diweddar ar y gweithlu gofal cymdeithasol wedi amlygu'r her sydd i'w hwynebu wrth recriwtio a chadw staff. Bydd cyfleoedd i fod yn rhan o ymchwil trwy gymryd rhan mewn Y a D o ansawdd uchel, naill ai fel ymchwilydd neu ymarferwr, yn hanfodol wrth greu amgylcheddau gwaith ysgogol i staff gwasanaeth. Wrth gyrraedd y fath sefyllfa bydd yn hanfodol sefydlu cyswllt cadarn rhwng datblygiad proffesiynol staff a mynediad i gyfleoedd i ddatblygu sgiliau ymchwil neu gael y canlyniadau ymchwil mwyaf diweddar.

12.4 Fel y nodwyd uchod mae angen dull cydlynol i ddatblygu'r gweithlu ymchwil. Bydd angen gwneud hyn mewn cydweithrediad ag eraill sydd â chyfrifoldeb am ddatblygiad proffesiynol yn y sectorau gwasanaeth ac academaidd a gallai gynnwys ariannu mentrau ar y cyd ar gyfer meysydd o flaenoriaeth benodol yng Nghymru. Amlygodd yr adolygiad o addysg uwch yng Nghymru yr angen am gydweithio rhwng y sefydliadau yng Nghymru i ddatblygu màs critigol o weithgarwch ymchwil sy'n gallu denu cyllid o'r tu allan. Roedd adran 8 yn disgrifio'r amrywiaeth eang o noddwyr cyfredol ac mae cyllid o'r fath yn aml ym maes datblygu ymchwilwyr newydd. Ar hyn o bryd, mae WORD yn gweithredu nifer o fentrau datblygu gallu ac mae angen cydlynu'r rhain a sicrhau eu bod yn canolbwytio ar feysydd blaenoriaeth.

CAMAU ALLWEDDOL

- Nodi bylchau mewn sgiliau yn y meysydd allweddol sy'n flaenoriaeth
- Datblygu ymchwil gwasanaeth iechyd mewn cydweithrediad â chyrrff cyllido eraill
- Rhaglenni hyfforddi i gyflenwi gwyddonwyr gyrfa a datblygu medrau ymchwil proffesiynol
- Secondio 2-ffordd rhwng canolfannau ymchwil a darparwyr gwasanaeth i ddatblygu ac ymgymryd â gweithredu cynlluniau mewn meysydd darparu gwasanaeth penodol
- Cynlluniau hyfforddi yn seiliedig ar ddarparwyr gwasanaeth a rhai sydd wedi cofrestru ar gyrsiau hyfforddi ymchwil HEI, gyda chyfle i ysgrifennu rhaglenni gweithredu penodol ar gyfer gradd uwch.

13. CYFATHREBU – Rhaglen Ddosbarthu/Ymwybyddiaeth

13.1 Yn draddodiadol wrth rheoli ymchwil mae llawer o sylw wedi bod ar y broses gomisiynu gyda rhywfaint llai o sylw yn cael ei roi i sicrhau bod canlyniadau ymchwil yn cael eu defnyddio. I fod yn onest, ychydig o bwrpas sydd i'r ymchwil gorau hyd yn oed os yw'n cael ei wneud mewn gwagle, ac os nad yw'r canlyniadau'n cael eu rhannu gyda'r rheiny sy'n gweithio yn y gwasanaethau neu mewn gweithgaredd perthnasol. Mae dosbarthu felly yn rhan dyngedfennol o'r Broses Y a D a bydd yn flaenoriaeth ar gyfer y strategaeth newydd yng Nghymru. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi ymrwmo i sicrhau bod canlyniadau ymchwil a gwerthuso yn cael eu defnyddio i gyfrannu at ddatblygu arfer a pholisi. Mae'r Fframwaith Llywodraeth Ymchwil a gyhoeddwyd yng Nghymru yn 2002 yn nodi bod cynnal ymchwil lle nad

oes pwrpas clir iddo ac nad oes cynlluniau ar gyfer cyhoeddi'r canlyniadau yn fater moesegol ac yn amlwg yn bryder o ran defnyddio arian cyhoeddus.

- 13.2 Bydd angen sicrhau bod canlyniadau ymchwil yn cael eu defnyddio yn gynnar iawn yn y broses gomisiynu. Rhaid nodi cwsmeriaid clir wrth gychwyn gwaith ymchwil a rhaglen wedi'i chynllunio i reoli'r gwaith o ddsbarthu a defnyddio'r canlyniadau. Bydd yr egwyddor hon yn cael ei chymhwyso i waith a gomisiynwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ac i geisiadau sy'n cael eu gwneud trwy gynlluniau cystadleuol.
- 13.3 Mae mentrau megis llywodraeth glinigol ac arfer ar sail tystiolaeth wedi rhoi cymhelliad pellach i sicrhau bod ymarferwyr yn ymwybodol o'r ffordd fwyaf modern o feddwl ac yn gallu defnyddio canlyniadau'r ymchwil yn ymarferol. Bydd atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng ymchwil a datblygu a mentrau eraill gwella ansawdd megis archwilio ac arolygu a rheoli perfformiad yn hanfodol er mwyn creu sefyllfa o'r fath.
- 13.4 Bydd angen dilyn nifer o wahanol lwybrau er mwyn sicrhau gwell cyfathrebu rhwng canlyniadau ymchwil ac arfer. Maent yn cynnwys:
- dulliau sy'n cefnogi'r cysylltiadau rhwng datblygiad proffesiynol ac ymchwil
 - defnyddio'r cyfryngau electronig yn llawn i gynorthwyo ymarferwyr i gael mynediad i ganlyniadau
 - dull cydlynol i gyfosod ymchwil
 - cysylltiadau gyda phrosesau gwella gwasanaethau eraill
 - digwyddiadau rheolaidd sy'n cysylltu canfyddiadau ymchwil a datblygu arfer a pholisi
 - datblygu diwylliant sy'n ymwybodol o ymchwil mewn lleoliadau gwasanaeth.
- 13.5 Mae'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu cydnabod fwyfwy fel elfennau allweddol yn economi Cymru. Yn gyntaf hwy yw'r prif gyflogwyr yng Nghymru. Yn ail, maent yn ffynonellau dyfeisio a datblygu technolegau newydd y gellir elwa arnynt yn fasnachol. Hyd yn hyn, mae llawer o hyn wedi digwydd mewn sefydliadau neu gan unigolion a bellach mae angen ddull cydlynol i fanteisio'n iawn ar syniadau sy'n codi o Y a D. Bydd hyn yn galluogi'r sector cyhoeddus i elwa trwy sefydlu dulliau cefnogi fydd yn cynorthwyo unigolion neu grwpiau gyda syniadau da.
- 13.6 Cynigir bod datblygiadau pellach yn digwydd ledled y tair adran mewn perthynas â'r maes hwn:
- I. Mae fframwaith o egwyddorion gweithredu yn cael ei ddatblygu ar gyfer y rheiny sy'n gweithio mewn gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol neu sy'n cydweithio â'r sector hwn ar weithdrefnau ar gyfer manteisio'n fasnachol ar fentrau sy'n deillio o Y a D

- II. Cefnogaeth i'r rheiny sydd am fanteisio'n fasnachol ar fentrau newydd trwy sicrhau bod cyngor arbenigol ar gael ar sefydlu mentrau masnachol
- III. Datblygu'r berthynas rhwng y sector iechyd a gofal cymdeithasol a diwydiant er mwyn gallu defnyddio arbenigedd masnachol i fynd i'r afael â materion iechyd a gofal cymdeithasol ac i alluogi diwydiant i weithio gyda'r sectorau hyn i ddatblygu cynnyrch newydd sy'n debygol o fod o fantais i gleifion/defnyddwyr.

CAMAU ALLWEDDOL

- Cyflwyno gweithdrefnau ar gyfer cynllunio'r gwaith o ddsbarthu canlyniadau ymchwil i'r broses gomisiynu
- Datblygu fframwaith o weithredu egwyddorion ar gyfer manteisio'n fasnachol ar syniadau sy'n deillio o Y a D
- Datblygu cysylltiadau rhwng hyfforddiant proffesiynol a datblygiad proffesiynol parhaus ac Y a D
- Sefydlu rhwydweithiau dosbarthu.
- Rhestri ebost caeedig ar gyfer ymchwilwyr ac ymarferwyr ledled Cymru, wedi'u neilltuo ar gyfer meysydd arbennig o ddiddordeb.

14. Casgliad a'r Camau Nesaf

- 14.1 Mae'r fframwaith strategol wedi amlinellu cyfeiriad i Y a D yng Nghymru a'i fwriad yw cyflawni'r nod o weld Cymru yn tyfu'n wlad a gynnabyddir fel un sy'n datblygu arfer a pholisi ar sail tystiolaeth o ansawdd uchel. Amlinellwyd fframwaith hir dymor i gyflawni nod o'r fath. Nodwyd tri maes fel rhai sy'n flaenoriaeth ar gyfer pum mlynedd gyntaf gweithredu'r fframwaith strategol sef:
- Sefydlu seilwaith i gefnogi dadansoddiad o anghenion iechyd a gofal cymdeithasol poblogaeth Cymru
 - Creu gweithlu ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol sydd â'r gallu i ddarparu ymchwil o ansawdd uchel mewn meysydd allweddol
 - Creu diwylliant a seilwaith lle gellir llunio polisi ac arfer ar sail tystiolaeth.
- 14.2 Yn dilyn y cyfnod ymgynghori cynhyrchir cynllun gweithredu pum mlynedd a fydd, yn ogystal â nodi ffyrdd y bydd y strategaeth, hefyd yn asesu goblygiadau'r strategaeth i'r sectorau a'r grwpiau allweddol sydd â diddordeb mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

Llyfryddiaeth

Aelodau'r Grŵp Ymgynghorol

| | |
|----------------------------|---|
| Ms Hilary Pepler | Prif Weithredwraig, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru - Cadeirydd |
| Yr Athro Philip Gummett | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| Yr Athro Michael Owen | Dirprwy Is Ganghellor Ymchwil, Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru |
| Mr Jon Skone | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Sir Benfro |
| Yr Athro Helen Houston | Adran Meddygon Teulu, Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru |
| Y Parchedig Jeremy Winston | Cadeirydd, Pwyllgor Moesegol Ymchwil Lleol Gwent |
| Yr Athro John G Williams | Ysgol Astudiaethau Ôl-Raddedig, Prifysgol Cymru, Abertawe |
| Yr Athro Ann Tucker | Deon Nyrsio a Bydwreigiaeth, Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru |
| Yr Athro Malcolm Mason | Oncolegydd Ymgynghorol, Felindre |
| Dr Ronan Lyons | Iechyd Cyhoeddus Iechyd Morgannwg Health |
| Dr Tony Newman | Barnardos |
| Dr Alex Anstey | Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent |
| Yr Athro Mick Bloor | Yr Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd |
| Dr Ruth Hall | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Mrs Rosemary Kennedy | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Mrs Ann Lloyd | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Mrs Helen Thomas | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Mr Graham Williams | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Mr Gerry Evans | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |